


JONES, OWEN (1809 - 1874), pensaer a chynllunydd darluniau a phatrymau addurnol



Enw: Owen Jones
Dyddiad geni: 1809
Dyddiad marw: 1874
Rhiant: Owen Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: pensaer a chynllunydd darluniau a phatrymau addurnol
Maes gweithgaredd: Celf a Phensaerniaeth
Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd 15 Chwefror 1809 yn Thames Street, Llundain, unig fab **Owen Jones** (' Owain Myfyr '). Ceir manylion gweddol lawn am ei yrfa yn y *D.N.B.* Dyma fraslun: Wedi cael ei addysg yn ysgol y Charterhouse ac yn breifat daeth, yn 16 oed, yn ddisgybl i L. Vulliamy, pensaer, ac yn ystod y chwe blynedd a dreuliodd gyda hwnnw bu hefyd yn astudio yn y Royal Academy of Arts. Yn 1830 bu'n trafaelio yn Ffrainc a'r Eidal; yn 1833 aeth i'r Aifft, Twrci, a gwlad Groeg; yn 1834 yr oedd yn Sbaen, yn enwedig yn Granada (a myned i Granada eilwaith yn 1837). Yn 1836 ymddangosodd ei waith cyntaf, sef rhan gyntaf *Plans, Elevations, Sections, and Details of the Alhambra*. Yn 1851 gwnaethpwyd ef yn arolygydd gwaith yn yr Arddangosfa Fawr (yr ' 1851 Exhibition'); bu iddo felly chwarae rhan bwysig yn addurno a threfnu'r adeilad y cynhelid yr arddangosfa ynddo. Y flwyddyn ddilynol daeth yn gyd-gyfarwyddwr gwaith addurno y Plas Grisial; efe oedd cynllunydd y 'llysoedd' Eifftaidd, Groegaidd, a Rhufeinaidd, a 'llys' yr Alhambra. Wedi hynny bu'n ddiwyd iawn yn addurno cartrefi ac adeiladau eraill; addurnodd blas Khedive yr Aifft, ac efe oedd pensaer y SJames's Hall, Llundain. Dangoswyd cynlluniau a darluniau pensaernïol ganddo yn arddangosfeydd y Royal Academy; e.e. The Town Hall, Birmingham, 1831, a S. George's Hall, Lerpwl, 1845. Dyfarnwyd iddo fedal aur y Royal Institute of British Architects yn 1857, sefydliad y daeth yn is-lywydd iddo ddeng mlynedd yn ddiweddarach. Bu farw 19 Ebrill 1874 yn Argyll Place, Regent Street, Llundain, a chladdwyd ef ym mynwent Kensal Green.

Rhestrir cyhoeddiadau niferus Owen Jones yn y *D.N.B.* Y mwyaf adnabyddus heddiw ydyw ei *Grammar of Ornament* (London, 1856; arg. arall yn 1865); dylanwadodd hwn, a rhai gweithiau eraill ganddo, ar ddatblygiad cynlluniau papur papuro, carpedi, a dodrefn. Gwaith arall o bwys yn ei gyfnod ydoedd *The Illuminated Books of the Middle Ages* (1844 ?; paratowyd hwn mewn cydweithrediad â H. N. Humphreys). Cyhoeddodd yr awdur argraffiadau lliw o rai o lyfrau'r Beibl, a'r Llyfr Gweddi Gyffredin (Saesneg); bu hefyd yn darlunio gweithiau rhai o'r beirdd.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography a'r cyfeiriadau a roddir yno

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: **Owen Jones**

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 76071

Wikidata: **Q1380862**

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Davies, W. Ll., (1953). JONES, OWEN (1809 - 1874), pensaer a chynllunydd darluniau a phatrymau addurnol. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-OWE-1809>

Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu



LLYFRGELL
THE NATION



Yn ddiwyd gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government